lgps | Local Government Pension Scheme

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund

# Cronfa Bensiwn Dyfed

## Y Gofrestr Risg



lgps | Local Government Pension Scheme

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund

## Cronfa Bensiwn Dyfed - Y Gofrestr Risg

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu a Rheoleiddio** | | | | |
| G1 | Methu dal data personol yn ddiogel. | Effaith \| Tebygolrwydd \| Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 4 \| Annhebygol 2 \| Canolig 8<br>Risg a Reolir<br>Sylweddol 3 \| Annhebygol Iawn 1 \| Isel Iawn 3 | • Cynllun Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng ar gyfer yr Awdurdod gyda waliau tân TG.<br>• Cynllun Adfer mewn Argyfwng ar gyfer y system bensiynau.<br>• Mae gan ddefnyddwyr awdurdodedig enwau defnyddiwr a chyfrineiriau unigryw a rhaid eu newid bob 60 diwrnod.<br>• Caiff dogfennau eu sganio i'r system bensiynau a chedwir copïau papur am gyfnod o 3 mis cyn eu torri'n ddarnau mân.<br>• Cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.<br>• Cydymffurfio â pholisïau TG mewnol yr Awdurdod.<br>• Cynnal archwiliad o systemau a'r gyflogres bob blwyddyn.<br>• Mae Meddalwedd Pensiwn yn system a gynhelir gan Aquila Heywood ac mae'n ganolfan ddata dylunio haen 4 gydag achrediad ISO27001. | Rheolwr Pensiynau |
| G2 | Diffyg arbenigedd ar y Pwyllgor Pensiwn a/neu ymhlith Swyddogion.<br><br>Achosir gan: Diffyg hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor oherwydd cylchoedd ethol.<br><br>Gan arwain at: Y Pwyllgor Pensiwn yn cael argymhellion diffygiol a allai, os nad ydynt yn cael eu herio, arwain at wneud penderfyniadau amhriodol. | Effaith \| Tebygolrwydd \| Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 3 \| Tebygol 4 \| Uchel 12<br>Risg a Reolir<br>Sylweddol 3 \| Posibl 3 \| Canolig 9 | • Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar waith.<br>• Cynllun hyfforddi wedi'i sefydlu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion. Yn cael ei gyflwyno ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.<br>• Sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion wedi'u hyfforddi a bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf mewn meysydd allweddol.<br>• Rhoi hyfforddiant sefydlu i aelodau ar ôl iddynt ymuno â'r Pwyllgor ynghyd â chynnig cyfleoedd dilynol i fynychu hyfforddiant arbenigol arall.<br>• Cymorth arbenigol ar gael gan ymgynghorydd annibynnol. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| G3 | Swyddogion yn gweithredu y tu allan i awdurdod dirprwyedig.<br><br>Achosir gan: Bygythiad y bydd Swyddogion yn gwneud penderfyniadau neu daliadau anawdurdodedig.<br><br>Gan arwain at: Colli incwm i'r gronfa; colli hyder rhanddeiliaid yng ngallu'r awdurdod gweinyddu. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>**Risg heb ei Rheoli:** Sylweddol 4 / Annhebygol 2 / Canolig 8<br>**Risg a Reolir:** Sylweddol 3 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 3 | • Cynnal adolygiad rheolaidd o'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog.<br>• Adrodd i'r Cabinet.<br>• Y Swyddog Monitro'n cynghori ar faterion o ran y cyfansoddiad. | Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| G4 | Diffyg perfformiad gan Aelodau'r Pwyllgor a/neu Swyddogion.<br><br>Achosir gan: Diffyg hyfforddiant i'r aelodau a'r swyddogion; trosiant aelodau a swyddogion; diffyg arfarniadau; diffyg monitro dangosyddion perfformiad; cyfyngiadau amser i aelodau; terfynau amser sy'n gwrthdaro â'i gilydd ar gyfer swyddogion.<br><br>Gan arwain at: Adroddiad archwilio amodol; cyhoeddusrwydd gwael posibl; aelodau'n colli hyder yng ngalluoedd y swyddogion; pwysau gormodol ar swyddogion; colli incwm i'r gronfa; colli hyder rhanddeiliaid yng ngallu'r awdurdod gweinyddu; cynnydd posibl yng nghyfraddau cyfrannu cyflogwyr. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>**Risg heb ei Rheoli:** Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>**Risg a Reolir:** Sylweddol 4 / Annhebygol 2 / Canolig 8 | • Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar waith.<br>• Cynllun hyfforddi wedi'i sefydlu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion. Cyflwynir ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.<br>• System mesur perfformiad ar waith.<br>• Arfarniadau Swyddogion blynyddol.<br>• Archwiliadau mewnol ac allanol. | Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

<table>
<tr><th>Rhif y Risg</th><th>Y Risg/Natur y Risg</th><th>Lefel y risg</th><th>Rheoli</th><th>Rhoddwyd i</th></tr>
<tr><td>G5</td><td>Methu cydymffurfio â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ogystal â rheoliadau hollbwysig eraill.</td><td><table>
<tr><td>Effaith</td><td>Tebygolrwydd</td><td>Lefel y risg</td></tr>
<tr><td colspan="3">Risg heb ei Rheoli</td></tr>
<tr><td>Sylweddol<br>4</td><td>Annhebygol<br>2</td><td>Canolig<br>8</td></tr>
<tr><td colspan="3">Risg a Reolir</td></tr>
<tr><td>Sylweddol<br>3</td><td>Annhebygol Iawn<br>1</td><td>Isel Iawn<br>3</td></tr>
</table></td><td><ul>
<li>Mae Swyddog Datblygu Altair yn cynnal gwiriadau system Altair i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.</li>
<li>Grwpiau Rhwydwaith (Altair a'r Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol).</li>
<li>Uwch-swyddog Cyfathrebu a Chyswllt â Chyflogwyr yn gyfrifol am gynnal llawlyfrau gweithdrefnau ar-lein, a darparu hyfforddiant i holl staff yr adain a chyrff cyflogi drwy ymweliadau safle.</li>
<li>Parhau i weithredu fel "Mabwysiadwr Cynnar" ar y cyd â darparwr y system i sicrhau bod y system yn bodloni gofynion rheoleiddiol.</li>
<li>Mae'r Swyddog Technegol yn sicrhau cywirdeb deddfwriaethol y cyfrifiadau.</li>
</ul></td><td>Rheolwr Pensiynau</td></tr>
<tr><td>G6</td><td>Methu ymateb i newid mawr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dilyn yr Adolygiad o Bensiynau'r Sector Cyhoeddus.</td><td><table>
<tr><td>Effaith</td><td>Tebygolrwydd</td><td>Lefel y risg</td></tr>
<tr><td colspan="3">Risg heb ei Rheoli</td></tr>
<tr><td>Sylweddol<br>4</td><td>Annhebygol<br>2</td><td>Canolig<br>8</td></tr>
<tr><td colspan="3">Risg a Reolir</td></tr>
<tr><td>Sylweddol<br>3</td><td>Annhebygol Iawn<br>1</td><td>Isel Iawn<br>3</td></tr>
</table></td><td><ul>
<li>Cymryd rhan ym mhob trafodaeth ac ymgynghoriad lefel uchel â'r Llywodraeth. *</li>
<li>Aelodaeth o Rwydwaith Pensiynau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). *</li>
<li>Sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhoi ar waith a bod Cronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei hystyried fel canolfan ragoriaeth ar gyfer gweinyddu pensiynau. **</li>
<li>Parhau i gael cydnabyddiaeth yn genedlaethol gan gymheiriaid fel un o'r arweinwyr ym maes gweinyddu pensiynau a hwyluso ymweliadau safle. **</li>
<li>Grwpiau Rhwydwaith (Altair a'r Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol). **</li>
<li>Mae'r Swyddog Technegol yn sicrhau cywirdeb deddfwriaethol y cyfrifiadau. **</li>
</ul></td><td>*Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br><br>**Rheolwr Pensiynau</td></tr>
</table>

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| **G7** | Marchnadoedd ariannol byd-eang yr effeithir arnynt gan yr hinsawdd economaidd, mesurau cyni cenedlaethol/byd-eang a digwyddiadau geowleidyddol. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir<br>Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9 | • Adolygiad parhaus ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Pwyllgor Pensiwn, Swyddogion ac Ymgynghorydd Annibynnol gan gyfeirio at yr economi fyd-eang ac ansefydlogrwydd byd-eang.<br>• Dyraniad Asedau Strategol Amrywiol. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **G8** | Nid yw'r Gronfa yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r risg o ran buddsoddi, llywodraethu ac enw da sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ac ystyriaethau eraill o ran Buddsoddi Cyfrifol. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir<br>Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9 | • Polisi Buddsoddi Cyfrifol ar waith.<br>• Adolygiad parhaus gan y Pwyllgor Pensiwn, Swyddogion ac Ymgynghorydd Annibynnol o amlygiad y gronfa i garbon yn ei hasedau ecwiti ac ystyriaethau eraill o ran Buddsoddi Cyfrifol.<br>• Ystyriaethau Buddsoddi Cyfrifol sy'n rhan annatod o wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi.<br>• Cydweithio â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys cynrychiolaeth ar yr is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol, penodi darparwr pleidleisio ac ymgysylltu a bod yn llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **Cyllid a Buddsoddiad** | | | | |
| **F1** | Methu casglu a rhoi cyfrif yn llawn am gyfraniadau gan gyflogwyr a gweithwyr ar amser ac yn unol â chanllawiau'r Rheoliadau.<br>Achosir gan: Methiant systemau ariannol cyflogwyr; absenoldeb staff allweddol; methu cyfathrebu'n effeithiol â chyflogwyr; methiant systemau allweddol megis bancio ar-lein a/neu gyfriflyfr ariannol.<br>Gan arwain at: Barn archwilio anffafriol bosibl; sefyllfa llif arian negyddol; oedi wrth lunio adroddiadau cyfrifyddu | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9<br>Risg a Reolir<br>Cymedrol 2 / Annhebygol 2 / Isel 4 | • Gweithdrefnau monitro cyfraniadau.<br>• Amserlenni ffurfiol ar gyfer derbyn cyfraniadau.<br>• Pennu cyllideb a gwneud gwaith monitro chwarterol mewn perthynas â'r gyllideb.<br>• Uwchgyfeirio cyfraniadau nad ydynt wedi'u derbyn.<br>• Archwiliad Systemau yn cael ei gynnal gan Archwilio Mewnol ac Archwilwyr Allanol. | Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| | IAS19; oedi wrth gau cyfrifon diwedd blwyddyn; cyflogwyr yn cael eu gorfodi i adael y cynllun. | | | |
| F2 | Risg o ran hylifedd/llif arian<br>Dim digon o arian i gyflawni'r rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus.<br>Achosir gan: Methiant cyflogwyr i dalu cyfraniadau ar amser; incwm difidend isel; talu nifer sylweddol o rwymedigaethau ar yr un pryd.<br>Gan arwain at: Y gofyniad i werthu asedau i gynhyrchu'r llif arian i fodloni rhwymedigaethau statudol y gronfa. Cyhoeddusrwydd negyddol ac adroddiad archwilio anffafriol. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir: Sylweddol 4 / Annhebygol 2 / Canolig 8 | • Rhagolygon llif arian cadarn nawr ac yn y dyfodol.<br>• Cysoni arian parod a difidend bob mis.<br>• Monitro rheolwyr buddsoddi bob chwarter gan y Pwyllgor Pensiwn.<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus.<br>• Penodi ceidwad. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| F3 | Lefelau gormodol o Arian Parod y Gronfa Bensiwn yn cael eu cadw o fewn balansau buddsoddi Cyngor Sir Caerfyrddin.<br>Achosir gan: Derbyniadau llog / difidend uchel a thaliadau buddion isel yn cael eu gwneud yn ystod y cyfnod.<br>Gan arwain at: Enillion sy'n cyfateb i arian parod yn hytrach nag enillion ar fuddsoddiadau bondiau neu ecwitis. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 3 | • Cysoni arian parod bob mis a gwahanu cyfrifon banc y gronfa bensiwn.<br>• Monitro llif arian y Gronfa yn wythnosol.<br>• Monitro bob chwarter gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn.<br>• Adolygiad gan Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| **F4** | Rheolwyr buddsoddi yn methu sicrhau'r enillion tymor hir a nodwyd ar eu mandadau am gyfnod estynedig.<br>Achosir gan: Tanberfformiad gan y rheolwyr buddsoddi; diffyg monitro a herio gan y Pwyllgor a/neu Bartneriaeth Pensiwn Cymru.<br>Gan arwain at: Methu â bodloni gofynion yr actiwari/Dyraniad Asedau Strategol o ran enillion | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 4 / Tebygol 4 / Sylweddol 16<br>Risg a Reolir<br>Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9 | • Monitro rheolwyr buddsoddi bob chwarter ac adroddiadau perfformiad cwmnïau gan Swyddogion, y Pwyllgor Pensiwn a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.<br>• Ymgysylltu gweithredol â Phartneriaeth Pensiwn Cymru.<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **F5** | Methu adennill pob dyled.<br>Achosir gan: Diffyg cyfathrebu rhwng swyddogion y gronfa a swyddogion yr awdurdod gweinyddu (dyledwyr); diffyg gweithdrefnau adennill/monitro.<br>Gan arwain at: Colli incwm i'r gronfa | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9<br>Risg a Reolir<br>Cymedrol 2 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 2 | • Defnyddio'r adain adennill dyledion arbenigol yn yr awdurdod gweinyddu.<br>• Monitro'r dyledion sy'n ddyledus yn chwarterol. | Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **F6** | Cynnydd sylweddol mewn cyfraniadau cyflogwyr oherwydd mwy o rwymedigaethau neu ostyngiad yng ngwerthoedd asedau.<br>Achosir gan: Rhwymedigaethau cynlluniau'n cynyddu oherwydd mwy o hirhoedledd neu symudiadau andwyol mewn cyfraddau disgownt. Amodau economaidd gwael, perfformiad yn is na'r enillion gofynnol a nodir yn y strategaeth fuddsoddi.<br>Gan arwain at: Enillion gwael/negyddol | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 4 / Tebygol 4 / Sylweddol 16<br>Risg a Reolir<br>Sylweddol 4 / Annhebygol 2 / Canolig 8 | • Defnyddio actiwari cymwys sy'n gwneud rhagdybiaethau darbodus ac yn argymell strategaeth a chyfnod adfer priodol. Mae hyn yn cael ei adolygu ar ôl pob cylch y prisiad tair blynedd. *<br>• Dyraniad Asedau Strategol Amrywiol. **<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus. ** | *Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br>**Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| | yn arwain at gynnydd posibl yng nghyfraddau cyfrannu'r cyflogwr. | | | |
| F7 | Methiant o ran Dyraniad Asedau Strategol i gyflawni amcanion buddsoddi.<br>Achosir gan: Rhagdybiaethau anghywir yn cael eu defnyddio mewn prisiad tair blynedd neu yn y Dyraniad Asedau Strategol.<br>Gan arwain at: Lefel y cyllid yn lleihau: cyfraddau cyfrannu cyflogwyr yn cynyddu o bosibl. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Tebygol 4 / Sylweddol 16<br>Risg a Reolir: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12 | • Herio a gweithio gydag actiwari cymwys wrth wneud rhagdybiaethau darbodus i sicrhau bod y prisiad tair blynedd yn gadarn wrth gyflawni amcanion buddsoddi'r gronfa. *<br>• Adolygiad o'r dyraniad asedau strategol a gynhelir bob 3 blynedd, gan ymgynghorydd cymwysedig. Mae gwyriadau mewn perthynas â hyn yn cael eu monitro'n chwarterol. **<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus. ** | *Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br><br>**Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| F8 | Risg o ran crynhoad<br>Risg bod perfformiad un dosbarth asedau yn cael effaith anghymesur ar y gallu i gyflawni'r amcanion buddsoddi.<br>Achosir gan: Strategaeth fuddsoddi amhriodol yn dilyn y prisiad tair blynedd, gan gynnwys diffyg amrywio.<br>Gan arwain at: Lefel y cyllid yn lleihau: cyfraddau cyfrannu cyflogwyr yn mynd yn annerbyniol, gan achosi cynnydd posibl yng nghostau'r cyflogwyr | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6 | • Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol amrywiol.<br>• Adolygu'r dyraniad asedau strategol yn barhaus gyda'r Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol a chymryd unrhyw gamau yn ôl yr angen.<br>• Ymgysylltu gweithredol â Phartneriaeth Pensiwn Cymru.<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

<table>
<tr><th>Rhif y Risg</th><th>Y Risg/Natur y Risg</th><th>Lefel y risg</th><th>Rheoli</th><th>Rhoddwyd i</th></tr>
<tr><td>F9</td><td>Risg o ran parti i gontract bod parti arall mewn trafodiad yn methu cyflawni'i rwymedigaeth i'r Gronfa.<br><br>Yn deillio o: arian sy'n cael ei adneuo mewn banc, ceidwadwyr a sefydliadau ariannol eraill, yn ogystal â'r risgiau credyd y mae cyflogwyr y gronfa yn agored iddynt.<br><br>Gan arwain at: Colli cyfalaf; gwerthoedd asedau yn gostwng; cost achos cyfreithiol; cyhoeddusrwydd anffafriol.</td><td><table><tr><td>Effaith</td><td>Tebygolrwydd</td><td>Lefel y risg</td></tr><tr><td colspan="3">Risg heb ei Rheoli</td></tr><tr><td>Sylweddol<br>4</td><td>Posibl<br>3</td><td>Uchel<br>12</td></tr><tr><td colspan="3">Risg a Reolir</td></tr><tr><td>Sylweddol<br>3</td><td>Annhebygol<br>2</td><td>Canolig<br>6</td></tr></table></td><td>• Gosod paramedrau priodol gyda rheolwyr y Gronfa a cheidwad i gyfyngu pa mor agored ydyw i risg o ran diffygdalu.<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus.</td><td>Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn</td></tr>
<tr><td>F10</td><td>Risg o ran hyd/cyfradd llog<br><br>Yn deillio o: risg o fod yn agored i symudiadau cyfradd llog sylweddol ar fuddsoddiadau.<br><br>Gan arwain at: Arenillion bondiau â dyddiadau hwy a gwerth buddsoddiadau ecwiti yn gostwng.</td><td><table><tr><td>Effaith</td><td>Tebygolrwydd</td><td>Lefel y risg</td></tr><tr><td colspan="3">Risg heb ei Rheoli</td></tr><tr><td>Sylweddol<br>4</td><td>Posibl<br>3</td><td>Uchel<br>12</td></tr><tr><td colspan="3">Risg a Reolir</td></tr><tr><td>Sylweddol<br>3</td><td>Posibl<br>3</td><td>Canolig<br>9</td></tr></table></td><td>• Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol amrywiol.<br>• Monitro hyd asedau llog sefydlog.<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus.</td><td>Rheolwr y Trysor a Buddsoddiadau Pensiwn</td></tr>
<tr><td>F11</td><td>Risg o ran chwyddiant (cyfradd ddisgownt)<br><br>Yn deillio o: Defnyddio cyfradd ddisgownt amhriodol i amcangyfrif rhwymedigaethau yn y dyfodol.<br><br>Gan arwain at: Lefel y cyllid yn lleihau; cyfraddau cyfrannu cyflogwyr yn mynd yn annerbyniol, gan achosi cynnydd posibl yng nghostau'r cyflogwyr.</td><td><table><tr><td>Effaith</td><td>Tebygolrwydd</td><td>Lefel y risg</td></tr><tr><td colspan="3">Risg heb ei Rheoli</td></tr><tr><td>Sylweddol<br>4</td><td>Posibl<br>3</td><td>Uchel<br>12</td></tr><tr><td colspan="3">Risg a Reolir</td></tr><tr><td>Sylweddol<br>3</td><td>Posibl<br>3</td><td>Canolig<br>9</td></tr></table></td><td>• Cyflogi actiwari cymwys i wneud rhagdybiaethau.<br>• Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol amrywiol.<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus.</td><td>Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn</td></tr>
</table>

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| **F12** | Risg o ran y farchnad (Pris)<br><br>Yn deillio o: Mae'r Gronfa'n cynnwys risg mewn perthynas â phris y farchnad o ran ei buddsoddiadau.<br><br>Gan arwain at: Lefel y cyllid yn lleihau; cyfraddau cyfrannu cyflogwyr yn mynd yn annerbyniol, gan achosi cynnydd posibl yng nghostau'r cyflogwyr. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9 | • Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol amrywiol.<br>• Rhagweld enillion tymor hir ar sail ddarbodus.<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **F13** | Risg o ran cyfnewidfa dramor<br><br>Yn deillio o: Mae gan y gronfa asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor. Felly mae'n agored i elfen o risg mewn perthynas ag amrywiad arian cyfred.<br><br>Gan arwain at: Lefel y cyllid yn lleihau; cyfraddau cyfrannu cyflogwyr yn mynd yn annerbyniol, gan achosi cynnydd posibl yng nghostau'r cyflogwyr. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9<br>Risg a Reolir: Cymedrol 2 / Posibl 3 / Canolig 6 | • Sefydlu ac adolygu dyraniad asedau strategol amrywiol (mewn rhanbarthau).<br>• Cyflogwyd Cynghorydd Buddsoddi Annibynnol i helpu'r pwyllgor i wneud penderfyniadau gwybodus. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

<table>
<tr><th>Rhif y Risg</th><th>Y Risg/Natur y Risg</th><th>Lefel y risg</th><th>Rheoli</th><th>Rhoddwyd i</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Gweithredol</td></tr>
<tr><td>O1</td><td>Methu prosesu taliadau buddion pensiwn cywir, gan gynnwys cyfandaliadau, mewn modd amserol.</td><td><table>
<tr><td>Effaith</td><td>Tebygolrwydd</td><td>Lefel y risg</td></tr>
<tr><td colspan="3">Risg heb ei Rheoli</td></tr>
<tr><td>Sylweddol<br>3</td><td>Annhebygol<br>2</td><td>Canolig<br>6</td></tr>
<tr><td colspan="3">Risg a Reolir</td></tr>
<tr><td>Sylweddol<br>3</td><td>Annhebygol Iawn<br>1</td><td>Isel Iawn<br>3</td></tr>
</table></td><td>• Gwahanu dyletswyddau ac awdurdodi budd yn dilyn y cyfrifiadau gan yr Uwch-swyddog Pensiynau.<br>• Mae Swyddog Datblygu Altair yn gyfrifol am wiriadau system rheolaidd o ran cyfrifiadau.<br>• Mae'r Uwch-swyddog Cyfathrebu a Chyswllt â Chyflogwyr yn cydgysylltu'n agos â'r holl awdurdodau cyflogi i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'n amserol i Gronfa Bensiwn Dyfed.<br>• Gweithdrefnau ar waith o ran dyddiad cau'r gyflogres.<br>• Eitem yn y Cynllun Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng.<br>• Cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol.<br>• Ymarfer Tystysgrifau Bywyd yn cael ei gynnal ar gyfer pob taliad siec.<br>• Cynnal adolygiadau o'r perfformiad misol i sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu cynnal.<br>• Cynllun Cadernid/Wrth Gefn TG ar waith.</td><td>Rheolwr Pensiynau</td></tr>
</table>

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| O2 | Methu cadw cofnodion pensiwn yn gyfredol ac yn gywir. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>**Risg heb ei Rheoli**<br>Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9<br>**Risg a Reolir**<br>Sylweddol 3 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 3 | • Uwch-swyddogion yn cydgysylltu'n agos ag awdurdodau cyflogi i sicrhau bod data'n cael ei gyflwyno'n amserol ac yn gywir i Gronfa Bensiwn Dyfed.<br>• Mae i-Connect yn sicrhau bod data gan gyflogwyr yn cael ei nodi drwy drosglwyddiad uniongyrchol o'r gyflogres bob mis.<br>• Gwiriadau cywirdeb data yn cael eu cynnal gan yr adain bensiynau cyn eu dilysu'n barhaus ar y system llif gwaith.<br>• Mae uniondeb data yn cael ei dilysu bob mis gan Swyddog Datblygu Altair.<br>• Mae gwiriadau dilysu data hefyd yn cael eu cynnal gan bartneriaid Cronfa Bensiwn Dyfed (e.e. yr Actiwari yn ystod y prisiad).<br>• Mae gwaith dilysu ychwanegol yn cael ei wneud drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol.<br>• Cyfle i uwchgyfeirio achosion o ddiffyg cydymffurfio. | Rheolwr Pensiynau |
| O3 | Colli arian drwy dwyll neu gamddefnydd mewn swyddogaethau sy'n gysylltiedig â gweinyddu. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>**Risg heb ei Rheoli**<br>Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6<br>**Risg a Reolir**<br>Cymedrol 2 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 2 | • Cynnal gwiriadau archwilio mewnol ac allanol i sicrhau bod rheolaethau priodol ac effeithiol ar waith.<br>• Gwahanu dyletswyddau ac awdurdodi buddion yn dilyn y cyfrifiadau gan yr Uwch-swyddog Pensiynau a'r Swyddog Pensiynau.<br>• Swyddog Datblygu Altair yn cynnal gwiriadau uniondeb data.<br>• Cynnal archwiliad o systemau a'r gyflogres bob blwyddyn. | Rheolwr Pensiynau |
| O4 | Ffactorau allanol na ellir eu rheoli yn tarfu ar weithrediadau arferol.<br>Achosir gan: Bygythiadau i'r gwasanaethau a ddarperir yn sgil tân, bom, tywydd eithafol, namau trydanol ac ati<br>Trefniadau annigonol o ran prosesau wrth gefn bob dydd, adfer mewn argyfwng a staff cyflenwi TG i gefnogi | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>**Risg heb ei Rheoli**<br>Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>**Risg a Reolir**<br>Sylweddol 3 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 3 | • Cynllun Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng ar gyfer yr Awdurdod gyda waliau tân TG. *<br>• Cynllun Adfer mewn Argyfwng ar gyfer y system bensiynau gyda darparwr y feddalwedd. **<br>• Mae Meddalwedd Pensiwn yn system a gynhelir gan Aquila Heywood ac mae'n ganolfan ddata dylunio haen 4 gydag achrediad ISO27001. ** | *Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br><br>**Rheolwr Pensiynau |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| | systemau.<br>Gan arwain at: Colli'r gallu dros dro i ddarparu gwasanaeth i randdeiliaid. | | | |
| **O5** | Methu sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau yn sgil colli prif swyddfa, system gyfrifiadurol, neu staff. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Cymedrol 2 / Annhebygol 2 / Isel 4<br>Risg a Reolir: Cymedrol 2 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 2 | • Cynllun Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng ar gyfer yr Awdurdod gyda waliau tân TG.<br>• Mae Meddalwedd Pensiwn yn system a gynhelir gan Aquila Heywood ac mae'n ganolfan ddata dylunio haen 4 gydag achrediad ISO27001. | Rheolwr Pensiynau |
| **O6** | Diffyg arbenigedd ymhlith rhai swyddogion Gweinyddu Pensiynau. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 3 | • Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar waith.<br>• Cynllun datblygu personol ar waith i gefnogi datblygiad pob swyddog yn yr Adain.<br>• Swyddogion yn mynychu cyrsiau/seminarau penodol i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. | Rheolwr Pensiynau |
| **O7** | Gorddibyniaeth ar Swyddogion Gweinyddu a Buddsoddi Pensiynau allweddol.<br>Achosir gan: Mae natur arbenigol y gwaith yn golygu bod nifer cymharol fach o arbenigwyr sydd ym maes buddsoddiadau a gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.<br>Gan arwain at: Bwlch sylweddol o ran | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6 | • Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar waith.<br>• Mae swyddogion allweddol yn trosglwyddo gwybodaeth arbenigol i gydweithwyr ar sail swyddogaeth neu bwnc drwy fentora.<br>• Gwella hyfforddiant drwy sesiynau/cyrsiau/gweithdai pwrpasol.<br>• Cymwysterau perthnasol penodol ar gyfer staff gweinyddu a buddsoddi.<br>• Ymgynghorydd Annibynnol ar gael i roi cymorth tymor byr o ran materion buddsoddi. | Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| | gwybodaeth os bydd arbenigwyr yn gadael. | | | |
| **O8** | Methu denu, rheoli, datblygu a chadw staff gweinyddu pensiynau ar bob lefel. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli:<br>Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir:<br>Sylweddol 4 / Annhebygol 2 / Canolig 8 | • Cynllun Hyfforddi a Datblygu wedi'i lunio. | Rheolwr Pensiynau |
| **O9** | Methu cyfathrebu'n briodol â rhanddeiliaid.<br>Achosir gan: Diffyg cyfathrebu clir.<br>Gan arwain at: Nid yw aelodau'r cynllun yn ymwybodol o'u hawliau, maent wedi pellhau o'r gronfa, a allai arwain at lai o aelodau newydd a mwy o aelodau'n gadael y gronfa.<br>Cyfathrebu gwael â rheolwyr buddsoddi, ceidwad, ymgynghorydd annibynnol, cyflogwyr y gronfa, actiwari a sefydliadau'r Llywodraeth. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli:<br>Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6<br>Risg a Reolir:<br>Sylweddol 3 / Annhebygol Iawn 1 / Isel Iawn 3 | • Bydd yr Uwch-swyddog Cyfathrebu a Chyswllt â Chyflogwyr penodedig yn parhau i gyflawni holl ofynion cyfathrebu Cronfa Bensiwn Dyfed, yn unol â'r Datganiad Polisi Cyfathrebu*<br>• Defnyddir Fy Mhensiwn Ar-lein i wella'r gwasanaeth a ddarperir i aelodau'r cynllun. *<br>• Cyfarfodydd chwarterol â'r ymgynghorydd annibynnol a'r rheolwyr buddsoddi. **<br>• Polisi Cyfathrebu ar waith. ***<br>• Mae gwefan gynhwysfawr yn cael ei diweddaru a'i datblygu'n barhaus. ***<br>• Cyfarfod Ymgynghori Blynyddol. *** | *Rheolwr Pensiynau<br>**Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br>***Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Buddsoddiadau Pensiwn |
| **O10** | Colli arian drwy dwyll neu gamddefnydd mewn swyddogaethau sy'n gysylltiedig â buddsoddi.<br>Achosir gan: Twyll neu gamddefnyddio arian gan gyflogwr, rheolwyr buddsoddi neu geidwad.<br>Gan arwain at: Colled ariannol i'r gronfa. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir: Sylweddol 4 / Annhebygol 2 / Canolig 8 | • Mae archwilio mewnol ac allanol yn profi'n rheolaidd fod rheolaethau priodol ar waith a'u bod yn effeithiol.<br>• Mae adroddiadau rheolaeth reoleiddiol gan reolwyr buddsoddi, ceidwad ac ati hefyd yn cael eu hadolygu gan y gwasanaeth archwilio.<br>• Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnal diwydrwydd dyladwy pan benodir rheolwr newydd.<br>• Monitro bob chwarter gan y Pwyllgor Pensiwn a'r Ymgynghorydd Annibynnol. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **O11** | Methu â chydymffurfio â dyddiadau cau neu gynnal papurau gwaith cadarn nad ydynt yn rhoi sicrwydd o gywirdeb y cyfrifon.<br>Achosir gan: Diffyg cynllunio ar gyfer cau'r cyfrifon; diffyg hyfforddiant; colli gwybodaeth arbenigol.<br>Gan arwain at: Adroddiad archwilio amodol; cyhoeddusrwydd gwael posibl; aelodau'n colli hyder yng ngalluoedd y swyddogion. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6 | • Pennu a monitro amserlen cau.<br>• Llunio dogfen gynllunio a chanllawiau papur archwilio allanol.<br>• Cydgysylltu ag archwilio allanol.<br>• Presenoldeb yn Hyfforddiant Cyfrifon Cronfa Bensiwn CIPFA ac adolygu Cyfrifon Enghreifftiol Cronfa Bensiwn CIPFA.<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| **O12** | Adnoddau digonol o ran sgiliau heb fod ar gael ar gyfer paratoi cyfrifon.<br>Achosir gan: Diffyg hyfforddiant; colli gwybodaeth arbenigol; gwyliau blynyddol neu absenoldeb i astudio.<br>Gan arwain at: Adroddiad archwilio amodol; adroddiad archwilio mewnol anfoddhaol; methu bodloni terfynau amser cau statudol | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6 | • Pennu a monitro amserlen cau.<br>• Llawlyfrau gweithdrefnau manwl ar waith sy'n cwmpasu swyddogaethau amrywiol.<br>• Strwythur priodol o ran Buddsoddiadau Pensiwn a'r Trysorlys ar waith.<br>• Cyrsiau hyfforddi, seminarau, cynadleddau a mentora staff. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **O13** | Methu gweithredu rheolaethau ariannol a chyllidebol llym.<br>Achosir gan: Diffyg monitro cyllideb a phennu cyllideb yn rheolaidd; diffyg cyfathrebu rhwng yr adain weinyddu a'r adain fuddsoddi; diffyg gwaith craffu ar ffioedd rheolwyr buddsoddi ac ymgynghorwyr.<br>Gan arwain at: Amrywiadau annisgwyl dros benawdau'r gyllideb. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 4 / Posibl 3 / Uchel 12<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6 | • Proses pennu cyllideb gadarn ar waith.<br>• Monitro cyllidebau bob chwarter.<br>• Cysoni cyfraniadau, difidendau, a'r gyflogres bensiwn bob mis.<br>• Cysoni'n chwarterol rhwng y cyfriflyfr ariannol a system Gweinyddu Pensiynau. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |
| **O14** | Adnoddau annigonol i ddarparu gofynion gwybodaeth ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | Effaith / Tebygolrwydd / Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli: Sylweddol 3 / Posibl 3 / Canolig 9<br>Risg a Reolir: Sylweddol 3 / Annhebygol 2 / Canolig 6 | • Adolygu adnoddau staffio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod buddiannau'r gronfa yn cael eu bodloni'n briodol wrth ymgysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru. | Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| **O15** | Bygythiadau darparu gwasanaethau yn sgil pandemigau/epidemigion.<br><br>Achosir gan: Trefniadau annigonol o ran prosesau wrth gefn bob dydd, adfer mewn argyfwng a staff cyflenwi TG i gefnogi systemau a staff.<br><br>Gan arwain at: Colli'r gallu dros dro i ddarparu gwasanaeth i randdeiliaid. | Effaith \| Tebygolrwydd \| Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 4 \| Posibl 3 \| Uchel 12<br>Risg a Reolir<br>Cymedrol 2 \| Posibl 3 \| Canolig 6 | • Cynllun Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng ar gyfer y Gronfa Bensiwn a'r Awdurdod gyda waliau tân TG. *<br>• Trefniadau gweithio hybrid gyda mynediad i systemau allweddol drwy offer a meddalwedd TG Cyngor Sir Caerfyrddin *<br>• Mae Meddalwedd Pensiwn yn system a gynhelir gan Aquila Heywood ac mae'n ganolfan ddata dylunio haen 4 gydag achrediad ISO27001. ** | *Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn<br><br>**Rheolwr Pensiynau |
| **O16** | Dim gweithdrefnau priodol i gyrff cyflogwyr sy'n symud o'r gronfa bensiwn neu gyrff cyflogwyr sy'n cau'r gronfa i aelodau newydd. | Effaith \| Tebygolrwydd \| Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Sylweddol 3 \| Posibl 3 \| Canolig 9<br>Risg a Reolir<br>Sylweddol 3 \| Annhebygol 2 \| Canolig 6 | • Monitro yn y cyfnod rhwng prisiadau ac ailasesu cyfraddau os yw'n briodol.<br>• Nodi unrhyw broblem a'i datrys drwy ymweliadau safle rheolaidd gan yr Uwch-swyddog Cyfathrebu a Chyswllt â Chyflogwyr.<br>• Gofyniad i awdurdodau cyflogi gyflwyno ffurflenni terfynu ar gyfer pob aelod gweithredol.<br>• Dilysu rhifau aelodaeth.<br>• Gwiriadau cyfamod cyflogwyr.<br>• Polisi'r Gronfa ar waith i ddelio â chyflogwyr sydd wedi cau. | Rheolwr Pensiynau |
| **O17** | Risgiau Seiber sy'n cynnwys:<br><br>Meddalwedd wystlo neu haint maleiswedd.<br>Ymosodiad Atal Gwasanaeth (DOS). | Effaith \| Tebygolrwydd \| Lefel y risg<br>Risg heb ei Rheoli<br>Trychinebus 5 \| Tebygol 5 \| Sylweddol 25 | • Mae gan CSC Gynllun Ymateb i Ddigwyddiadau Seiber manwl sy'n cynnwys sefydlu Tîm Ymateb i Ddigwyddiadau sy'n cynnwys arbenigwyr technegol, staff uwch a rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.*<br>• Mae CSC wedi sefydlu Grŵp Llywodraethu Seiber a Gwybodaeth | Rheolwr Pensiynau a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau |

| Rhif y Risg | Y Risg/Natur y Risg | Lefel y risg | Rheoli | Rhoddwyd i |
|---|---|---|---|---|
| | Mynediad anawdurdodedig i'r rhwydwaith (hacio) - Allanol a Mewnol. Ymosodiad E-bost Gwe-rwydo. | Risg a Reolir<br>Trychinebus 5 \| Tebygol 4 \| Sylweddol 20 | sy'n pennu polisïau, yn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn darparu cyfeiriad strategol.*<br>• Hyfforddiant ymwybyddiaeth staff, waliau tân, rheolaethau cymwysiadau ar weinyddion, diweddariadau diogelwch, asesiadau o wendidau, sganiau o wendidau mewnol, monitro rhagweithiol o weithgarwch y rhwydwaith a phwyntiau terfyn.*<br>• Defnyddio offer seiberamddiffyn uwch y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).*<br>• Mae Meddalwedd Pensiwn yn system a gynhelir gan Aquila Heywood ac mae'n ganolfan ddata dylunio haen 4 gydag achrediad ISO27001. **<br>• Polisi Seiber Cronfa Bensiwn Dyfed ar waith ac wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiwn yn unol â Chôd Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR).** | Pensiwn<br><br>Rheolwr Pensiynau** |